# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 25ain o Ebrill, 2023 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dilwyn Morgan |
| **Swyddog Cyswllt:** | Mirain Llwyd |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 682 818 |
| **Teitl yr Eitem:** | Gwynedd Oed Gyfeillgar |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Cymeradwyo a chefnogi'r bwriad o ymgeisio am achrediad Cymru Oed Gyfeillgar i Wynedd a sicrhau perchnogaeth eang ar draws y Cyngor a'i bartneriaid i'r bwriad o gryfhau'r nodweddion oed gyfeillgar er derbyn yr achrediad.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Dymuniad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Llywodraeth Cymru yw bod pob Awdurdod Lleol yng Nghymru yn derbyn achrediad fel cymuned oed gyfeillgar erbyn 2025.

Ceisir cadarnhad o gefnogaeth y Cabinet i ddatblygiad a gweithrediad rhaglen o rwydweithio a chydweithio ar draws y Cyngor a gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill i ddatblygu nodweddion oed gyfeillgar Gwynedd ac i sicrhau'r achrediad i Wynedd.

### 3 CEFNDIR

Deillia'r cysyniad o 'gymunedau oed gyfeillgar' o'r achrediad 'dinasoedd oed gyfeillgar' sydd yn fframwaith a sefydlwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd. Datblygodd y fframwaith a'r achrediad perthnasol i gynnwys Awdurdodau, cymunedau a gwledydd.

Amcan Llywodraeth Cymru yw bod Cymru yn wlad oed gyfeillgar a bwriedir cefnogi pob awdurdod lleol yng Nghymru i anelu at gyrraedd yr achrediad, gyda'r strategaeth Cymdeithas Sy'n Heneiddio (2021) yn sail i'r gwaith.

Eisoes bu peth trin a thrafod ar y bwriad yng Ngwynedd a bu ymateb fforymau pobl hŷn y sir yn gefnogol iawn i'r syniad. Un o'r amcanion tymor byr yw cynyddu ymwybyddiaeth o'r bwriad a'r rhaglen waith, gan ddechrau gyda chefnogaeth y Cabinet. Os y bydd y Cabinet yn gefnogol yna bydd rhaglen o godi ymwybyddiaeth, cydnabod cyfraniadau a wneir eisoes a datbygu/gweithredu camau pellach yn cael ei sefydlu ar gyfer pob adran o fewn y Cyngor a gyda'n partneriaid allweddol ar draws sectorau.

Cymunedau Oed Gyfeillgar yw ardaloedd wna bopeth o fewn eu gallu i sicrhau bod y gymuned yn fan cyfeillgar i bawb heneiddio ynddo. Rhagwelir y bydd y rhaglen yn datblygu y meddylfryd oed gyfeillgar ar draws y Cyngor a chyda'n partneriaid, drwy roi materion oed gyfeillgar yn ran annatod ymhob datblygiad. Er enghraifft, gallai arwain at swyddogion yn cydweithio gyda chymunedau i sicrhau bod palmentydd yn hygyrch, bod toiledau ar gael i'w defnyddio, a bod meinciau mewn mannau priodol mewn trefi a phentrefi.

Rhannodd Sefydliad Iechyd y Byd y gwaith yn wyth parth i'w hystyried tra'n gweithio tuag at ardal 'oed gyfeillgar':

1. Trafnidiaeth
2. Tai
3. Cyfranogiad Cymdeithasol
4. Parch a chynhwysiant cymdeithasol
5. Cyfleoedd i gyfranogi a chyflogaeth
6. Cyfathrebu a gwybodaeth
7. Cymorth cymunedol a gwasanaethau iechyd
8. Mannau awyr agored ac adeiladu

Amlyga'r rhestr hon y bydd angen cydweithio ar draws y Cyngor cyfan yn ogystal â phartneriaid allweddol ar draws y sir i ddatblygu Gwynedd yn sir oed gyfeillgar. Pwysleisia hynny y pwysigrwydd o godi ymwybyddiaeth a chael sgyrsiau yn y mannau cywir ar draws y Cyngor a thu hwnt er mwyn symud y gwaith yn ei flaen.

Mi fydd yn hanfodol hefyd ein bod yn dathlu'r pethau sydd eisoes wedi eu cyflawni er mwyn adeiladu ar y pethau hynny.

## 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Er mwyn cyrraedd gofynion yr achrediad bydd angen cyflwyno adroddiad o'r gwaith yng Ngwynedd yn disgrifio'r datblygiadau o fewn y sir. Rhagwelir rhaglen waith fel a ganlyn:

- Mapio beth sydd yn digwydd ar draws Gwynedd yn barod – bydd angen cyd-weithio yn agos gyda holl adrannau'r Cyngor a phartneriaid ar draws y Sir.

- Adnabod beth sydd yn ‘oed gyfeillgar’ a dathlu’r rhain.
- Cyhoeddi bod Gwynedd yn mynd am yr achrediad gan dynnu sylw cyfryngau. Bydd hyn yn codi statws ac yn gwneud staff ac unigolion ar draws Gwynedd yn ymwybodol.
- Deall pa ddatblygiadau sydd eu hangen a phenderfynu ar y blaenoriaethu ar gyfer gweithredu.
- Deall a phenderfynu sut byddwn yn cyd-weithio tuag at yr achrediad.
- Ymgysylltu gyda phobl hŷn a deall y ffordd orau bosibl o wneud hynny.
- Codi ymwybyddiaeth ar draws holl adrannau’r Cyngor a hefyd gyda’r partneriaid allweddol.
- Gweithredu oddi mewn i gyllidebau presennol ac ymgeisio am grantiau ble mae hynny’n briodol.
- Gosod sylfaeni cadarn yn eu lle er mwyn sicrhau ein bod yn datblygu’n barhaus yn y maes yma.

Mae Cymru yn Wlad Oed Gyfeillgar yng Nghynllun Gwaith y Llywodraeth hyd at 2026 a bwriadant ariannu swyddog ym mhob Awdurdod Lleol nes 2025. Yng Ngwynedd cyflogir y Cydlynydd Gwynedd Oed Gyfeillgar drwy’r cyllid hwn gan y Llywodraeth.  Nid oes angen am gyllid ychwanegol ar gyfer y cynllun ar hyn o bryd.

## 5 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Barn y swyddogion statudol:

Y Swyddog Monitro: *Mae’r cais arfaethedig am achrediad yn adlewyrchu ac yn cyd fynd a sawl agwedd o amcanion y Cyngor. Mae yn gydnaws a Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.  Rwy’n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir a’r rhesymau am y penderfyniad.*

Pennaeth Cyllid: *Nodaf fod disgwyliad i weithredu oddi mewn i gyllidebau presennol, a bydd yr Adran yn ymgeisio am grantiau ble mae hynny’n briodol.  Os bydd y Cabinet yn penderfynu cymeradwyo a chefnogi’r bwriad o ymgeisio am yr achrediad, bydd swyddogion Cyllid yn cydweithio ag awdur yr adroddiad er mwyn cefnogi unrhyw agweddau ariannol.  Nid oes gennyf wrthwynebiad i’r penderfyniad a geisir.*